
# Cyngor Cymuned LLANEDI Community Council

## Adroddiad Blynyddol

## Y Flwyddyn Ddinesig 2019 -2020





## Cyflwyniad gan ein Cadeirydd:

Mae’n bleser ysgrifennu’r cyflwyniad hwn i ail Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned.

Mae’r cynllun eleni yn edrych yn ôl ar flwyddyn brysur a chynhyrchiol i’r Cyngor Cymuned. Mae’n arddangos y gwaith ‘rydym yn ei wneud a’r ffordd y mae hyn y cyfrannu at, ac yn bwydo i mewn, i’r gwaith Llesiant ar lefel sirol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae pob Adroddiad Blynyddol yn dangos sut ‘rydym yn parhau i gyfrannu at y pedwar amcan llesiant sydd wedi’u cynnwys yng nghynllun llesiant lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (Mai 2018), y ffordd ‘rydym yn ymwreddio’r pum dull o weithio a’r ffordd ‘rydym yn adlewyrchu’r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Er mwyn cydymffurfio ag adran 40(1) o’r Ddeddft Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar ein Cyngor Cymuned i gyhoeddi cynllun blynyddol. ‘Rydym yn hapus iawn i wneud hyn, gan ei fod yn ein helpu ni i ganolbwyntio ar yr hyn ‘rydym wedi’i gyfrannu i’n cymunedau, ac yn ein helpu ni i brif-ffrydio’r nodau llesiant i’n prosesau ni.

Felly dw i’n cymeradwyo’r adroddiad hwn i’r etholwyr ac i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Y Cynghorydd T Higgins**
Cadeirydd 2019/2020
Cyngor Cymuned Llanedi

1. **Ein dull o weithio:**

‘Rydym:

- yn gweithio o fewn fframwaith y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol* ac yn integreiddio’r saith nod llesiant i’n proses o wneud penderfyniadau
- yn meddwl yn yr hirdymor
- yn ystyried bod atal yn well na gwella, ac yn adnabod ac yn helpu atal y rhesymau sy’n achosi i broblemau godi yn ein cymunedau
- yn defnyddio’n gwybdaeth leol i’n helpu ni i ddatblygu’n hamcanion ein hunain, amcanion a fydd yn rhoi ffurf i gyfleoedd a datrysiadau lleol
- am gynnwys pobl yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, pan ei bod hi’n briodol gwneud hynny
- am fod yn gydweithredol, a gweithredu fel arwyddbost i ddarparwyr gwasanaethau arbenigol
- am ddefnyddio’r adroddiad hwn fel meincnod, ac adolygu ein cynnydd yn flynyddol
- am lunio, adolygu a gweithredu Cynlluniau Datblygu Cymunedol
- am reoli ac annog y defnydd o’r llwybrau troed a’r Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- am gyfrannu at faterion cynllunio, gan gynnwys llunio’r Cynllun Datblygu Lleol

I helpu gwneud hyn, mae’r Cyngor yn ymrwymo i’r canlynol:

- Cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar ein gwefan.
- Datblygu a chyhoeddi datganiad llesiant.
- Ymgorffori’r saith nod llesiant cenedlaethol yn ein cynllun cofnodi Datblygiadau Cymunedol.
- Defnyddio’n hadnoddau Datblygu Cymunedol i helpu cynnal llesiant cyffredinol ein cymunedau.

## 2. Cyflwyniad i'r Cyngor

Mae Cyngor Cymuned Llanedi yn cynrychioli cymunedau Tycroes, Llanedi, yr Hendy, y Fforest a Thalyclun yn nwyrain Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 16 cynghorydd:

- Y Cynghorydd Iain Barrett
- Y Cynghorydd Alan Blackley
- Y Cynghorydd Berian Davies
- Y Cynghorydd Cellan Davies
- Y Cynghorydd Emyr Davies
- Y Cynghorydd Allan Evans
- Y Cynghorydd Byron Evans
- Y Cynghorydd Stuart Evans
- Y Cynghorydd Lynne Griffiths
- Y Cynghorydd Calum Higgins
- Y Cynghorydd Tina Higgins
- Y Cynghorydd Sharon Lyle (wedi ymddiswyddo, Ebrill 2020)
- Y Cynghorydd Mike Nicholas
- Y Cynghorydd Eifion Phillips
- Y Cynghorydd Buddug Thomas
- Y Cynghorydd Gareth Thomas

**2019/2020**

Cadeirydd: Y Cynghorydd Tina Higgins

Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Emyr Davies

Clerc: David Davies

Swyddog Datblygu Cymunedol: Ruth Taylor-Davies

**Ardal Ddaearyddol:**

Hen blwyf Llanedi, gan gynnwys Tycroes, Llanedi, Yr Hendy/Fforest a Thalyclun yn Sir Gaerfyrddinin.

Nifer y trigolion: tua 6000 (Tycroes*: 2,534, Yr Hendy*: 3,302, Llanedi 300, *yn seiliedig ar Amcangyfrif Canol-Blwyddyn o'r Boblogaeth gan ONS yn 2017) a gwybodaeth a godwyd o [https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/research-statistics/electoral-ward-county-profiles](https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/research-statistics/electoral-ward-county-profiles)

Mae gan yr Hendy a Thycroes ill dau hanes diwydiannol, tra roedd Llanedi yn bentref bach, ac yn lleoliad i eglwys y plwyf. Erbyn heddiw, ardal noswylio yw ardal y Cyngor Cymuned yn bennaf, ac mae wedi gweld twf sylweddol yn y stoc dai yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae tair ysgol gynradd yn yr ardal. Mae'r gymuned yn cynnwys tair Ardal Gynnyrch Ehangach (ardaloedd daeryddol a ddefnyddir i fesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru): yr Hendy 1 (sy'n cynnwys Llanedi a'r Fforest), yr Hendy 2 (pentref yr Hendy a Thalyclun) a Thycroes. Yr Hendy 1 yw'r ward leiaf ddifreintedig yn y Sir, tra bod ward Tycroes yn yr 28ain safle ac yr Hendy 2 yw'r ward 42il leiaf ddifreintedig o'r 112 ardal yn Sir Gaerfyrddin. Serch hynny, mae dal ambell boced o amddifadedd. Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i'r gymuned.

## 3. Beth 'rydym yn gwneud:

- Cynnal a chadw a gwella'r parciau, yr ardaloedd chwarae, rhai o'r llwybrau troed a'r mannau agored.
- Ariannu goleuadau'r Nadolig yn Nhycroes, yr Hendy a'r Fforest, ac yn Llanedi.
- Darparu grantiau i glybiau, digwyddiadau a chyfleusterau lleol.
- Meithrin grwpiau a mudiadau cymunedol sy'n helpu diwallu anghenion lleol.
- Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus.
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol megis yr Ystafell Ddarllen/ y Café Cymunedol.
- Chwilio am, a sicrhau, arian grant er mwyn cefnogi prosiectau sydd o fudd i'r gymuned.
- Annog gwirfoddoli lleol.

Mae'r cynllun isod yn manylu ar y mathau o brosiectau ayyb. 'rydym wedi bod yn ymwneud â nhw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

## 4. Cyllid

### 4.1 Incwm

Mae Cyngor Cymuned Llanedi yn cael ei ariannu yn bennaf o'r praesept a delir gan dalwyr lleol Treth y Cyngor. 'Rydym hefyd yn derbyn ychydig incwm o ffynonellau megis llog banc a thâl am logi cyfleusterau. Ein cyllideb ar gyfer 2019/2020, gan gynnwys grantiau, oedd £216,209

- Ar gyfer 2020/21 bydd yn codi i £243,813
- I dalwyr Treth y Cyngor, yr ardoll Band D a godir yn 2020/ 2021 yw £109.08
- Roedd y Cyngor wedi derbyn grantiau o nifer o ffynonellau gan gynnwys Adran 106, y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a'r Awdurdod Treth Tirlenwi.

### 4.2 Gwariant

Yn 2019/2020, roedd gwariant y Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Gweinyddu | £15,479 |
| • Costau Staff | £67,940 |
| • Treuliau'r Aelodau | £534 |
| • Amrywiol | £599 |
| • Lwfans y Cadeirydd | £846 |
| • Grantiau a ddyfarnwyd | £31,310 |
| • Yr Ystafell Ddarllen | £6,010 |
| • Mannau Agored | £20,583 |
| • Cloc | £386 |
| • Parciau | £15,515 |
| • Cae Pêl-droed yr Hendy | £360 |
| • Clwb Criced yr Hendy | £2,117 |
| • Prosiectau Cyfalaf | £40,185 |
| • **Cyfanswm y Gwariant** | **£203,138** |

- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf gan gynnwys Llwybr Natur yr Hendy, Camerau Teledu Cylch Cyfyng yn Nhycroes, uwchraddio cloc Tycroes, plac coffa Terfysg Beca a Chanolfan Gymunedol yr Hendy. Mae'r Cyngor yn cadw cronfa wrth gefn gyffredinol iachus er mwyn ei alluogi i ymateb i anghenion cymunedol. Yn ychwanegol, dros y saith mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn dodi £20,000 y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn er mwyn paratoi at ddatblygu'r cyfleuster cymunedol, sydd mawr ei angen, yn yr Hendy.

## 5. Gweledigaeth ac Amcanion y Cyngor

**Gweledigaeth ac Amcanion y Cyngor**

Gweledigaeth y Cyngor yw helpu creu cymunedau deniadol, diogel, bywiog, iachus, cymhwysol a gweithgar sy'n amgylcheddol gynaliadwy yn ein hardaloedd, a'i wneud yn ardal lle y gall pawb gael mynediad cyfartal at gyfleoedd er mwyn gwella ansawdd eu bywydau.

Dyma brif amcanion y Cyngor:

- Parhau i ymgynghori gyda'n cymunedau ynghylch eu hanghenion a'u pryderon, ac i helpu mynd i'r afael â'r rhain.
- Cadw ac hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a diwylliant Cymreig.
- Gwella'r rhwydweithiau cyfathrebu yn, a rhwng, ein cymunedau.
- Cefnogi grwpiau /mentrau cymunedol newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli.
- Gwella a chynnal ansawdd uchel yr ardaloedd chwarae ar gyfer plant ein cymuned.
- Datblygu, cynnal a gwella ein cyfleusterau cymunedol.
- Bod yn ddatblygiadol ac yn arloesol yn ein dulliau, ac annog yr ethos hwnnw mewn eraill sy'n gweithio ac yn byw yn ein hardal.
- Cyfrannu at:
    - llesiant yr holl drigolion i gydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
    - gyfleoedd cyfartal a grymuso ein trigolion er mwyn gwireddu hyn.
    - cynaliadwyedd amgylcheddol a helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd.
    - cyfartaledd pwrpas ar draws ein hardal.
- Mesur, yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol priodol, ein gwaith ar y lefel leol a defnyddio'r wybodaeth hynny i lobïo am ddarpariaeth gwasanaethau lleol.

Byddwn yn adolygu ein hamcanion yn ystod 2020/ 2021 ac yn ychwanegu targedau mesuradwy lle bo hynny'n bosibl.

## 6. Dull y Cyngor o ymwreiddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei waith

Mae'r Cyngor yn ymwreiddio, yn weithredol, y nodau llesiant cenedlaethol i'n ffyrdd o weithio. Mae'r gwaith ymgynghori y mae wedi'i wneud yn y cymunedau wedi rhoi mewnwelediad i anghenion llesiant y cymunedau.

'Rydym wedi ymgorffori'r nodau cenedlaethol i strwythur adrodd yn ôl y Swyddog Datblygu Cymunedol, fel bod y cynghorwyr yn gallu monitro cynnydd y Cyngor.

Bydd y nodau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn llawn yn y Cynlluniau Cymunedol sydd yn cael eu datblygu, a bydd ffrydiau gwaith/ prosiectau (cyfredol ac yn y dyfodol) yn cael eu mesur yn erbyn eu cyfraniad at y nodau hynny.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn penodi Swyddog Datblygu Cymunedol sydd yn/a fydd yn parhau, mewn cydweithrediad â chynghorwyr, i ddatblygu rhaglen waith a fydd yn helpu Cyngor Cymuned Llanedi i gyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

**Ein cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol**

| Nod Cenedlaethol | Gweithgaredd Lleol |
|---|---|
| **6.1 Cymru Lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol a chymesur (gan gynnwys gweithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth a chanddynt sgiliau ac addysg dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth sy'n cael ei gynhyrchu gan swyddi da.<br>(gweler hefyd adran 9) | 'Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i'r nod hwn:<br>• Ymgynghori<br>• Hyfforddiant<br>• Mynediad am ddim i Wi-Fi a TG.<br>• Ymrwymiad at ddatblygu sy'n amgylcheddol gyfeillgar (e.e. y neuadd gymunedol arfaethedig).<br>• Ymrwymiad at gyfeiriaduron busnes lleol.<br>• Eiriolwyr Digidol/ Didiau a Beitiau.<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• 'Rydym yn talu ein cyflenwyr yn brydlon.<br>• 'Rydym yn gyflogwr cyflog byw.<br>• 'Rydym yn sicrhau bod rhaid i unrhyw ddatblygiadau newydd, neu ôl-osod cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy a deunyddiau a ail-gylchwyd.<br>• 'Rydym yn ystyried cyfleoedd i secondio staff o fewn a rhwng mudiadau er mwyn iddynt rhannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy.<br>Yn ychwanegol<br>• 'Rydym yn datblygu prosiect monitro llygredd.<br>• Mae'r Cyngor yn symud tuag at fod yn fudiad ddi-bapur. |

| | |
|---|---|
| **6.2 Cymru Gydnerth:**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol a chanddo ecosystemau sy'n gweithredu'n iach ac yn cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu i addasu i newidiadau.<br>(gweler hefyd adran 9) | 'Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i'r nod hwn:<br>• Y Llwybr Natur<br>• Ymgynghori Parhaus<br>• Hyfforddiant<br>• Grwpiau casglu sbwriel a monitro baeddu gan gŵn<br>• Grwpiau unigol e.e. Y Cylch Cyfeillgarwch.<br>• Ein hymateb i COVID 19<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• 'Rydym yn darparu lle i fywyd gwyllt.<br>• 'Rydym yn chwarae'n rhan drwy alluogi partneriaethau lleol ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol.<br>• Caffael a phlannu coed a llwyni brodorol yw ein dewis cyntaf<br>• 'Rydym yn rheoli ymylon y ffordd a mannau gwyrdd cysylltiedig ar gyfer blodau gwyllt a pheillwyr.<br>• 'Rydym yn defnyddio compost di-fawn yn ein cynlluniau plannu ar draws ein hardal. |
| **6.3 Cymru Iachach:**<br>Cymdeithas lle y sicrheir bod llesiant corfforol a meddyliol pobl mor uchel â phosibl, a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sy'n fuddiol I iechyd yn y dyfodol.<br>(gweler hefyd adran 9) | • 'Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i'r nod hwn:<br>• Y Llwybr Natur<br>• Cefnogi clybiau chwaraeon a'r gymdeithas chwaraeon leol.<br>• Darparu ardaloedd chwarae ac Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd (MUGA)<br>• Cynnal chwaraeon/ clybiau yn ystod gwyliau ysgol.<br>• Prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Cydweithio gyda Swyddogion Llwybrau Troed a Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir.<br>• Ein hymateb i COVID 19<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• Mae gennym bolisi gweithio hyblyg.<br>• 'Rydym yn ystyried y ffordd y gallwn sicrhau bod gan blant fynediad beunyddiol at gyfleon i chwarae yn yr awyr agored, ac i hyrwyddo hyn. |

| | |
|---|---|
| **6.4 Cymru fwy cyfartal:**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hamgylchiadau)<br>(gweler hefyd adran 9) | ‘Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae’r canlynol yn arbennig o berthnasol i’r nod hwn:<br>• Cymhwysedd Digidol/ mynediad at Wi-Fi a TG yn y Café Cymunedol.<br>• Cydweithio gyda Chynhwysiant Digidol Cymru a Didiau a Beitiau i ddatblygu gwirfoddolwyr ac eiriolwyr digidol.<br>• Hyfforddiant<br>• Cefnogi grwpiau cymunedol – grantiau, cyngor ayyb.<br>• Darparu cyfleusterau am ddim, a chwbl hygyrch e.e. y Llwybr Natur.<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, ‘rydym yn gwneud y canlynol:<br>• ‘Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth i’r cyhoedd ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau.<br>• ‘Rydym yn annog y staff a’r aelodau ethoedig i ymweld â phrosiectau lleol a chwrdd â’r bobl allweddol hynny sy’n gwthio’r newidiadau yn eu blaen. |
| **6.5 Cymru o gymunedau cydlynus:**<br>Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel– a chysylltiadau da rhyngddynt.<br>(gweler hefyd adran 9) | ‘Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae’r canlynol yn arbennig o berthnasol i’r nod hwn:<br>• Yr adnoddau chwarae gwell yn yr Hendy, Llanedi a Thycroes.<br>• Prosiect pontio’r cenedlaethau.<br>• Y Cylch Cyfeillgarwch.<br>• Fforymau.<br>• Ein cyfathrebiadau allanol, e.e. y cylchlythr, gwefan, y cyfryngau cymdeithasol ayyb.<br>• Astudio arfer gorau yn y Sir ac yn y Gymru Ehangach.<br>• Trefniadau blodau, lladd gwair a goleuadau’r Nadolig.<br>• Ymgynghori er mwyn asesu barn y bobl ynghylch diogelwch a’r ymdeimlad o gymuned.<br>• Cyfleoedd gwirfoddoli, megis y Llwybr Natur.<br>• Ein hymateb i COVID 19<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, ‘rydym yn gwneud y canlynol:<br>• ‘Rydym yn galluogi pobl leol i wella lleoliadau nad oes neb yn poeni yn eu cylch.<br>• ‘Rydym yn gwneud ein rhan yn galluogi pobl leol i ddod at ei gilydd mewn cymunedau er mwyn iddynt gyfarfod ac adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol.<br>• ‘Rydym yn cefnogi ein mudiad, ac eraill, i fod yn ddementia gyfeillgar trwy drefnu hyfforddiant ar y cyd gyda |

| | |
|---|---|
| | chynghorau cymuned eraill.<br>• 'Rydym yn cyhoeddi'r cyfleoedd sy'n codi i wirfoddoli yn lleol.<br>• 'Rydym yn weithredol yn ein gwaith o gefnogi gweithgareddau pontio'r cenedlaethau.<br>• 'Rydym yn annog cyfleoedd i gyflwyno cludiant cymunedol. |
| **6.6 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:**<br>lle mae genym llawer o gyfleoedd i wneud amrwyiol bethau a lle y gall llawer o bobl siarad Cymraeg<br><br>Hoffwn wedl bod y nod hwn yn derbyn statws uwch yng Nghymru, a gan Llywodraeth Cymru, ac hoffwn gynnig bod hwn yn cael ei aralleirio fel a ganlyn: Cymru ddwyieithog, ffyniannus lle y ceir y cyfle i siarad a defnyddio'r Gymraeg ym mhobman.<br>(gweler hefyd adran 9) | Mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried y nod hwn i fod o bwys allweddol, ac 'rydym o'r farn y dylai fod yn brif flaenoriaeth.<br>• I'r perwyl hwnnw, mae holl ddogfennau swyddogol y Cyngor yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.<br>• Cynhelir holl gyfarfodydd y Cyngor Llawn yn ddwyieithog.<br>• Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>• Mae gennym wefan ddwyieithog.<br>• Mae ein cylchlythyr yn ddwyieithog.<br>• 'Rydym yn cefnogi menter ysgolion ar y cyd (rhwng Ysgol Yr Hendy – dwy ffrwd – a Thycroes Iau, ffrwd Saesneg) i hyrwyddo'r Siarter Iaith a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr iard chwarae.<br>• 'Rydym yn cefnogi'r Cylch Meithrin lleol er mwyn annog yr iaith Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar.<br>• 'Rydym yn rhoi arian grant i Eisteddfod yr Hendy.<br>• 'Rydym yn cydweithio gyda grwpiau i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog, e. e. Y Llwybr Natur.<br>'Rydym hefyd yn cefnogi'r nod hwn mewn ffyrdd eraill:<br>• 'Rydym wedi cydweithio gyda darparwyr hyfforddiant i hyrwyddo amrywiaeth o gyfleodd hyfforddi a anelir at adeiladu hyder a pharatoi pobl at fyd cyflogaeth.<br>• 'Rydym wedi datblygu prosiect am Derfysg Beca a oedd yn cynnwys yr ysgol leol, ac wedi adnewyddu'r plac ar Sgwâr yr Hendy.<br>• 'Rydym wedi cefnogi awdurdon lleol i ddatblygu hanes cynhwysfawr o'r tri pentref.<br>• 'Rydym wedi datblygu prosiect am lwybr natur (a gyllidwyd gan arian grant) i annog pobl i fynd allan i archwilio eu hamgylchedd; bydd yr holl ddeunydd dadansoddi yn ddwyieithog.<br>• 'Rydym wedi darparu café cymunedol sydd hefyd yn cynnig gofod ar gyfer arddangos celf lleol/ prosiectau ysgol ayyb. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Ornitholeg Prifysgol y Trydydd Oes ayyb.<br>• 'Rydym yn darparu cefnogaeth i gynnal a chadw claddfeydd.<br>• 'Rydym yn annog ieuenctid, ac yn dathlu eu llwyddiannau dwry gyfrwng mentrau megis y Gwobrau Terry Price blynyddol.<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• 'Rydym yn ystyried cyfleoedd i gefnogi a datblygu clybiau chwaraeon lleol. |

| | |
|---|---|
| **6.7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**<br>lle 'rydym yn edrych ar ôl yr Amgylchedd ac yn ystyried pobl eraill ar draws y byd<br>(gweler hefyd adran 9) | 'Rydym wedi amlinellu ein gweithgaredd mewn mwy o fanylder yn adran 9. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i'r nod hwn:<br>• Lleihau ein defnydd o bapur gan fod gan gynghorwyr y dewis i dderbyn cofnodion/ adroddiadau ayyb ar ffurf electronig<br>• Mae gweithio o'r cartref yn lleihau'r costau gwresogi/ goleuo y mae'n rhaid i'r Cyngor ysgwyddo, ac yn cwtogi ar y milltiroedd teithio i'r gwaith.<br>• 'Rydym yn gweithio ar y cyd gydag arbenigwyr o Brifysgol Abertawe ar brosiect i fonitro llygredd awyr (o'r heolydd prysur/M4) a'r ffordd y gallwn liniaru'r problemau.<br>• Lleihau ac ail-gylchu gwastraff lle bo hynny'n bosibl.<br>• 'Rydym wedi cynllunio'r adnodd cymunedol yn yr Hendy i fod yn amgylcheddol gyfeillgar, h.y. i feddu ar ôl-troed carbon isel.<br>• Mynd â chyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Fforwm, cyfleoedd am hyfforddiant ayyb. i bob un o'r pentrefi er mwyn lleihau ôl-troed teithio y preswylwyr.<br>• Prynu yn lleol lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau ein hôl-troed carbon.<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• 'Rydym yn gweithredu ym maes dysgu byd-eang e.e. cynnal digwyddiad yn ystod Pythefnos Masnach Deg. |
| **6.8 Cynhwysiant**<br>(gweler hefyd adran 9) | 'Rydym yn trafod gyda, ac yn cynrychioli, ein cymuned. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau, fforymau ac arolygon ar raddfa fawr yn ogystal â holiaduron sy'n cael ei hanfon allan gyda'r cylchlythyron ac arlein.<br>Yn nhermau Y Gallu i Greu – rhestr wirio Newidiadau Syml oddiwrth y Comisiynydd, 'rydym yn gwneud y canlynol:<br>• 'Rydym yn gweithio gyda phobl sydd eisoes yn meddu ar gysylltiadau cymunedol er mwyn datblygu prosiectau newydd.<br>• 'Rydym wedi cynnal sgyrsiau 'beth sy'n bwysig i chi' gyda'r bobl a'r cymunedau 'rydym yn gweithio gyda nhw.<br>• 'Rydym yn defnyddio Saesneg a Chymraeg plaen ymhob dogfen a fwriedir at sylw'r cyhoedd.<br>• 'Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a ffurfiau o ymgysylltu sy'n hygyrch a chynhwysol.<br>• 'Rydym yn ymgysylltu fesul thema yn hytrach na fesul polisïau penodol.<br>• 'Rydym yn meithrin dull 'dwedwoch chi, gwnaethon ni'. |

## 7. Y ffordd y mae'r Cyngor wedi ymwreiddio pum dull o weithio y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'w drefniadau cynllunio a gweithio

| | |
|---|---|
| **7.1 Hir Dymor**<br>Y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i hefyd gwrdd â'r anghenion hir dymor. | Mae'r Cyngor yn deall bod angen meddwl yn yr hir dymor.<br>• Mae'n datblygu cynlluniau cymunedol 5-mlynedd a fydd yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd rhain yn cael eu diweddaru fel rhan o raglen dreigl er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cadw llygad ar y dyfodol.<br>• Mae wedi bod yn clustnodi cronfeydd wrth gefn am y saith mlynedd ddiwethaf i'w gwario ar brif brosiect cyfalaf y Cyngor, sef datblygu adnodd cymunedol yn yr Hendy.<br>• Mae wedi'i ymrwymo i ddarparu cefnogaeth ariannol craidd parhaus i'r gofodau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn Nhycroes a Llanedi.<br>• Mae wedi'i ymrwymo i gynnal a chadw'r gofodau awyr agored a'r ardaloedd chwarae (gweler 9.1.3/9.2.3) ac yn clustnodi swm o arian cyson at y pwrpas hwn.<br>• Mae prosiectau cyfalaf megis, er enghraifft, yr Ystafell Ddarllen wedi'i cynllunio i fod yn hawdd eu cynnal ac yn ynni effeithlon.<br>• 'Rydym wedi cyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol parhaol sydd yn datblygu cynlluniau a phrosiectau a fydd yn dod â buddion tymor hir. |
| **7.2 Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau, neu i'w hatal rhag gwaethygu, helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion. | 'Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd atal.<br>Er enghraifft: o ran ein hadnoddau a'n gwaith cynnal a chadw 'rydym wedi gwneud penderfyniadau pendant i sicrhau ein bod yn osgoi bod problemau yn codi oherwydd bod yr offer yn annigonol / hen drwy;<br>• Wella'r offer yn y meysydd chwarae<br>• Cynnal arolygon cyson o'r meysydd chwarae<br>• Sicrhau bod yr offer a'r adnoddau yn cael eu cynnal a chadw yn gyson<br>O ran atal problemau amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol, 'rydym wedi cymryd camau cadarnhaol:<br>• Mewn partneriaeth â'r meddygfeydd lleol, rydym wedi adnabod y prif broblemau iechyd lleol a |

| | |
|---|---|
| | byddwn yn ystyried darparu prosiectau a fydd yn helpu atal/ lliniaru ar rhain.<br>• ‘Rydym yn ystyried yn weithredol y llygredd aer a achosir gan drafnidiaeth ac effaith y gronynnau ar iechyd, a byddwn yn datblygu strategaeth i leihau allyriadau.<br>• ‘Rydym wedi taclo problemau ynghylch unigrwydd drwy sefydlu’r Cylch Cyfeillgarwch sydd, erbyn hyn, yn grŵp annibynnol. (gweler 9.2.2/9.2.5)<br>• Drwy ffurfio partneriaethau ‘rydym wedi darparu hyfforddiant arbenigol<br>• ‘Rydym wedi helpu sefydlu grŵp casglu sbwriel lleol a mentrau i atal baeddu gan gŵn (gweler 9.1.2 a 9.1.7).<br>• ‘Rydym wedi cynnal ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol ac wedi adrodd yn ôl yn ei gylch i’r Cyngor Sir<br>• ‘Rydym yn parhau i drafod gyda’r Cyngor/ Cynghorwyr Sir ynghylch materion/ problemau lleol sy’n codi yn eu hardaloedd o gyfrifoldeb |
| **7.3 Integreiddio**<br>ystyried y ffordd y gall amcanion llesiant corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar yr amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | ‘Rydym yn ymwybodol o’r nodau llesiant ac yn asesu effaith y prosiectau yn eu herbyn. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn ein dulliau o adrodd yn ôl ynghylch ein datblygu cymunedol. |
| **7.4 Cydweithio**<br>Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rhannau o’r corff ei hun) a fyddai’n gallu helpu’r corff hwnnw i gwrdd â’i amcanion llesiant. | Fel Cyngor, ‘rydym yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid  er mwyn cwrdd â’n hamcanion llesiant. Gall rhain amrywio o glybiau lleol hyd at fudiadau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>e.e.<br>• Mae ein SDC yn aelod o rwydwaith o SDC’au eraill yn y Sir. Maen nhw’n rhannu arfer gorau ac yn chwilio am gyfleoedd i gynnal prosiectau cydweithredol.<br>• Datblygu cyfleoedd am hyfforddiant gydag asiantaethau yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector.<br>• Cydweithio gyda Biwro Cymunedol y Cyngor ynghylch cyllid a chefnogaeth.<br>• ‘Rydym hefyd yn ymateb yn weithredol i ymgynghoriadau e.e. gan y Bwrdd Iechyd a’r Cyngor Sir.<br>• Trafod cyfleoedd i fonitro llygredd aer gyda phrifysgol Abertawe a WAWR.<br>• Cydweithio gydag amrywiol gyrff a chlybiau chwaraeon.<br>• Cydweithio gyda grwpiau cymunedol lleol.<br>• Cefnogi mentrau traws-ffiniol megis Parêd Nadolig yr Hendy a Phontarddulai |

| | |
|---|---|
| **7.5 Cynhwysiant**<br>Y pwysigrwydd o gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrwyiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.<br>(gweler hefyd adran 9) | 'Rydym yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o gynnwys ystod eang o bobl sydd â diddordeb mewn gwireddu'r nodau llesiant.<br>'Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ei bod hi'n well mynd ati i gysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd. Felly 'rydym yn ymgynghori, yn dadansoddi bylchau yn barhaus ac yn dod o hyd i ffyrdd o gyrraedd y rhai na fyddant, fel arfer, am gymryd rhan.<br>Dros y flwyddyn ddiwethaf 'rydym wedi:<br>• Dosbarthu a dadansoddi holiaduron cymunedol ynghylch y ganolfan gymunedol arfaethedig a gweithgareddau chwaraeon.<br>• Defnyddio'r grwpiau sydd eisoes yn bodoli fel modelau e.e. y Cylch Cyfeillgarwch.<br>• Cynnal presenoldeb cadarn ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Parhau gyda'r fforwm cymunedol yn yr Hendy ac, cyn i'r haint Covid-29 ymddangos, wedi cynllunio digwyddiad yn Nhycroes.<br>• Mynychu digwyddiadau cymunedol megis Ffair Nadolig Ysgol Tycroes.<br>• Sefydlu grwpiau gwirfoddol newydd megis Llwybr Natur yr Hendy, Ffrindiau Parc Heol Brown (yn ei gyfnod cynnar) a COVID 19.<br>• Bod yn bartner ym mhroses ymgynghori cymunedol Hywel Dda.<br>• Datblygu deialog gyda'n clybiau chwaraeon a'n cymdeithas chwaraeon. |

## 8. Y ffordd y mae'r Cyngor wedi ymwreiddio pedwar amcan llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i'w waith

| | |
|---|---|
| **Arferion Iachus**<br>Bod gan y bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus ynghylch eu bywydau a'r amgylchedd.<br><br>**Ymyrraeth Gynnar**<br>Sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth iawn ar yr adeg iawn; yn union pan fo ei angen.<br><br>**Cysylltiadau Cadarn**<br>Pobl, lleoedd a mudiadau sydd â chysylltiadau cadarn ac yn gallu addasu i newidiadau.<br><br>**Pobl Ffyniannus**<br>Gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir. | Mae'r Cyngor yn ymwreddio, yn weithredol, pedwar amcan y BGC i'w ffyrdd o weithio. Mae'r gwaith ymgynghori y mae wedi'i gynnal gyda chymunedau wedi rhoi iddo mewnweledAfter mewnwelediad i anghenion llesiant ein cymunedau.<br><br>'Rydym yn myfyrio ar ein cynnydd tuag at yr amcanion llesiant hyn yn strwythur adrodd yn ôl gwaith ein Swyddog Datblygu Cymunedol, fel bod y cynghorwyr yn gallu monitro cynnydd y Cyngor.<br><br>Bydd amcanion llesiant y BGC yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y Cynlluniau Cymunedol sydd yn cael eu datblygu, a byddwn yn mesur ffrydiau gwaith / prosiectau (presennol ac yn y dyfodol) yn erbyn y cyfraniad y maen nhw'n gwneud yn erbyn yr amcanion hynny.<br><br>'Rydym eisoes wedi gwrando ar bryderon ein cymunedau ynghylch materion megis unigrwydd, llygredd, diogelwch ar y ffyrdd, chwarae mwy diogel, diffyg lleoliad i gyfarfod yn gyhoeddus yn yr Hendy ayyb., ac yn ymchwilio'n weithredol i ffyrdd o ddatblygu prosiectau a fydd yn datrys y fath bryderon. |

## 9. Adroddiad ynghylch y camau a gymerwyd, a'r cynnydd a wnaethpwyd, yn erbyn Amcanion Llesiant Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

**9.1 Arferion Iachus:** Bod gan y bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus ynghylch eu bywydau a'r amgylchedd.

| Camau a gymerwyd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Cynnydd |
|---|---|
| 9.1.1 Llwybr Natur yr Hendy (gweler hefyd 9.3.11) | 'Rydym wedi sicrhau cyllid am y llwybr natur cymunedol yn yr Hendy, ger safle y Ganolfan Gymunedol arfaethedig. Mae'r llwybr eisoes yn cael ei ddatblygu ac mae'r prosiect yn cynnig ystod o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl lleol.<br>Pan ei fod yn orffenedig bydd yn darparu llwybr hamdden sy'n hygyrch i'r gymuned gyfan. 'Rydym yn cydweithio gyda Cerdded er Llesiant Gorllewin Cymru i sicrhau bod ein llwybr yn datblygu i fod yn gylchdaith defnyddiol ar gyfer y rhai sy'n cerdded er mwyn cadw'n heini.<br>Drwy ychwanegu gwybodaeth dadansoddol a chynnal digwyddiadau bydd y llwybr yn ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu hamgylchedd a'u rôl hwythau yn ei gadw.<br>Hyd yn hyn mae tua 30 gwirfoddolwr wedi bod yn gwneud tasgau amrywiol, yn amrywio o osod bocsys nythu i glirio mieri, o weithio gyda'r Parcmyn Iau i wneud gwaith ymchwil ar gyfer yr wybodaeth ddadansoddol ayyb. (er bod yr argyfwng COVID 19 wedi'u hatal rhag cyfarfod yn fwy diweddar). Mae gan y llwybr natur ei grŵp llywio ei hun, ac mae wedi sefydlu ei sianeli ei hun ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>O ran y prosiect, mae'n cyfrannu at lawer agwedd o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys:<br>• Ymgynghori cymunedol<br>• Cynhwysiant cymunedol<br>    ○ Gwirfoddolwyr<br>    ○ Ysgol<br>• Bioamrywiaeth<br>• Gwella'r amgylchedd<br>• Addysg<br>• Ymarfer corff ac iechyd<br>• Mynediad i bawb<br>• Ar gael i bawb, am ddim |

| | |
|---|---|
| 9.1.2 Baeddu gan gŵn<br>(gweler hefyd 7.2) | Hydref 2019 - parhau<br>Mae ymgynghori yn ein cymunedau wedi dangos bod baeddu gan gŵn yn bryder mawr. 'Rydym wedi sefydlu grŵp o wirfoddolwyr i fonitro baeddu gan gŵn ymhob pentref a, gyda chefnogaeth y Cyngor Sir, wedi rhoi deunyddiau iddynt i amlygu'r broblem (chwistrell sialc a stensiliau). |
| 9.1.3 Annog chwarae yn yr awyr agored<br>(gweler hefyd 7.1/7.2) | Ers iddo gymryd cyfrifoldeb amdanynt oddiwrth y Cyngor Sir drwy'r broses trosglwyddo asedau, mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian mawr (£230,000) yn yr ardaloedd chwarae. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr yn y cyfloedd sydd ar gael yn ein cymunedau i chwarae yn ddiogel ac yn weithgar.<br>Mae'r Cyngor yn monitro diogelwch yn y meysydd chwarae yn gyson, ac wedi sefydlu system adrodd yn ôl gynhwysfawr sydd yn adnabod unrhyw waith sydd ei angen, ac yn monitro cynnydd y fath waith.<br>'Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'n meysydd chwarae. Mae Parc yr Hendy wedi'i ddisgrifio fel yr ail orau yng Nghymru (*Wales On Line*) ac yn denu llawer o ymwelwyr o gymunedau eraill.<br>Mae'r plant yn mwynhau'r adnoddau a ddarperir. Mae Parc yr Hendy yn cael ei ddefnyddio gan bobl i gynnal picnics a phartïon plant anffurfiol.<br>Mae 3 cynghorydd a'r SDC wedi dilyn hyfforddiant arolygu meysydd chwarae gan gynyddu, yn sylweddol, y nifer o bobl sydd ar gael i wneud y gwaith hyn yn ardal y Cyngor Cymuned. |
| 9.1.4 Chwaraeon/ clybiau yn ystod gwyliau ysgol<br>(gweler hefyd 9.2.4) | Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i greu cyfleoedd i blant ymwneud â chwaraeon a gweithgareddau corfforol pan nad ydynt yn yr ysgol. Yn 2019/2020 roedd yCyngor wedi datblygu a chyllido cyfleoedd, yn cynnwys sesiynau tenis wythnosol yn 2 o'n Hardaloedd Gemau Aml-ddefnydd drwy gydol gwyliau'r haf, a chlwb gwyliau hanner tymor (a ddarparwyd gan Actif Sirgar). Roedd croeso mawr i'r ddwy fenter, ac 'rydym yn gobeithio adeiladu ymhellach arnynt. |
| 9.1.5 y Gymdeithas Chwaraeon<br>(gweler hefyd 9.2.5) | Yn dilyn cefnogaeth a roddwyd gan Gynghorwyr a'r SDC, ail-sefydlwyd Cymdeithas Chwaraeon yr Hendy. Mae'r Gymdeithas am lenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol, creu cynllun datblygu ac adnabod ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau a chyfleusterau chwaraeon. |
| 9.1.6 Annog chwaraeon<br>(gweler hefyd 9.2.5) | Mae'r Cyngor Cymuned yn helpu i gefnogi cyfleusterau a chlybiau chwaraeon lleol. Mae'n darparu Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd yn ogystal â helpu i gefnogi clybiau'r ardal drwy ddyranu grantiau iddynt.<br>'Rydym yn cadw cofnod o fanylion llogi'r ardaloedd gemau aml-ddefnydd ac yn cysylltu â'r clybiau/ cymdeithasau 'rydym yn eu cefnogi.<br>Drwy annog chwaraeon, 'rydym yn galluogi ein cymunedau i ymarfer, ac mae chwaraeon yn codi hyder ymysg y cyfranogwyr. |

| | |
|---|---|
| 9.1.7 Cefnogi'r grŵp casglu sbwriel (gweler hefyd 7.2) | Cynhaliwyd peilot yn 2018<br>Sefydlwyd y grŵp ym mis Mai 2019 - parhau<br>Mae swyddog yn mynychu'r cyfarfodydd i olrain a chofnodi cynnydd.<br>'Rydym wedi helpu i daclo problem yn ein cymuned drwy helpu grŵp, a gydgysylltir yn lleol, i ymsefydlu. Byddwn yn parhau i gefnogi'r grŵp. |
| 9.1.8 Gwobr Terry Price | Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig gwobr flynyddol sy'n cydnabod, yn rhoi cyhoeddusrwydd i ac yn annog cyflawniad mewn unrhyw faes. |
| 9.1.9 Llwybrau Troed ac Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 'Rydym yn cynnal a chadw rhai o'r llwybrau troed lleol ac yn gweithio ar brosiect i wella gwybodaeth a mynediad at y rhwydwaith leol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus. 'Rydym wedi bod yn trafod gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir, ac wedi bod yn cydweithio gyda Rheilffordd Calon Cymru a Chrwydrwyr Llanelli. |

**9.2 Ymyrraeth Gynnar:** Sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth iawn ar yr adeg iawn; yn union pan fo ei angen.

| | |
|---|---|
| 9.2.1 Gwefan<br>(gweler hefyd 9.3.12) | Erbyn hyn, ‘rydym wedi datblygu’r wefan. Yn ogystal â newyddion y Cyngor a’r gymuned, mae’n bosibl ei defnyddio fel ffynhonnell cefnogaeth a chyngor.<br>Mae hawl gan Grwpiau Cymunedol i ychwanegu cynnwys – er enghraifft, mae gwirfoddolwyr y Llwybr Natur wedi ychwanegu eu tudalennau ac adnoddau eu hunain.<br>Ers mis Mawrth 2019 mae wedi profi i fod yn arf defnyddiol i ddarparu cyngor / rhoi gwybodaeth am y gefnogaeth a gynigir ynghylch COVID 19. |
| 9.2.2 Y Cylch Cyfeillgarwch<br>(gweler hefyd 7.2, 9.2.5) | Sefydlwyd y Cylch Cyfeillgarwch er mwyn ymateb i angen. Mae’n rhoi cyfle i’r bobl hynny a fyddai, fel arall, ar eu pennau eu hunain, i gwrdd â phobl o’r un anian a dilyn diddordebau / gweithgareddau sy’n gyffredin iddynt. Gall cefnogaeth o’r fath helpu atal pobl rhag syrthio i unigrwydd a segurdod.<br>Mae tua 40 yn mynychu yn reolaidd yn wythnosol (er bod yr argyfwng COVID 19 wedi’u hatal rhag cyfarfod yn ddiweddar).<br>Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y grŵp yn cael effaith gadarnhaol ar y mynychwyr. |
| 9.2.3 Ardaoledd Chwarae<br>(gweler hefyd 7.1/7.2, 9.1.3 | Gweler 9.1.3 uchod.<br>Annog chwarae a dysgu yn yr awyr agored o oedran cynnar. |
| 9.2.4 Gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau ysgol<br>(gweler hefyd 9.1.4) | Gweler 9.1.4 uchod.<br>Annog chwarae a dysgu yn yr awyr agored o oedran cynnar. |
| 9.2.5 Darparu cefnogaeth i’r grwpiau lleol sydd angen datblygu ceisiadau grant<br>(gweler hefyd 9.1.1, 9.1.5, 9.1.6, 9.2.2) | Mae cyfrifoldeb ar y Swyddog Datblygu Cymunedol i helpu mudiadau lleol i ddenu arian prosiect.<br>Cynigir cefnogaeth barhaus i Glwb Rygbi Tycroes a Neuadd Eglwys Llanedi.<br>Byddwn yn parhau i fonitro llwyddiant y ceisiadau am grant, a datblygiad y prosiectau wrth iddynt fynd yn eu blaen. ‘Rydym wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus ar ran y gymuned i gynllun Tesco Bags for Life (y Cylch Cyfeillgarwch); y Dreth Tirlenwi (y Llwybr Natur), Western Power (Covid 19) a Sylfaen (datblygu gwytnwch cymunedol). |

| | |
|---|---|
| 9.2.6 Cefnogi'r Cylch Meithrin lleol, yr Eisteddfod leol a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon drwy gynnig arian grant (gweler hefyd 6.6) | Mae'r Cyngor yn rhoi grantiau diamod i fudiadau yn y gymuned sy'n cefnogi plant ac ieuenctid. Mae'r grantiau hyn yn cynnig cyfleodd iddynt y byddant fel arall ddim yn eu cael. Yn achos yr Eisteddfod a'r Cylch Meithrin, mae'r Cyngor Cymuned am annog, yn weithredol, y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar.<br>Byddwn yn monitro'r nifer o ddisgyblion o'r Cylch Meithrin sy'n symud ymlaen i ysgolion cyfrwng Cymraeg. |
| 9.2.7 COVID 19<br>Mae hwn yn faes lle 'rydym wedi ymateb yn gyflym er mwyn helpu'r mwyaf anghenus yn ein cymunedau.<br>gweler hefyd 9.3.16 | Fel cynghorau cymuned eraill, 'rydym wedi llwyddo i ymateb i'r heriau sydd wedi codi yn ein cymunedau oherwydd COVID 19.<br>• Recriwtio a chefnogi siopwyr/ casglwyr presgripsiynau/ cyfeillion ffôn ayyb. gwirfoddol. Sefydlu grŵp Facebook er mwyn caniatáu cyswllt didrafferth a chydlynu ein hymdrechion.<br>• Cydweithio gyda chyflenwyr lleol i ddatblygu rhestr o wasanaethau cludo i'r cartref<br>• Sefydlu llinell gymorth unswydd<br>• Cydweithio gyda 2 fanc bwyd lleol i gyflenwi nwyddau i bobl a oedd naill ai'n hunan-ynysu neu o dan anfantais oherwydd COVID 19<br>• Gweithio gydag ysgolion i roi cyngor cefnogi/ cydweithio ynghylch disgyblion prydau bwyd am ddim ayyb.<br>• Gadael taflen ym mhob cartref i'w hysbysu am y gefnogaeth sydd ar gael<br>• Defnyddio'r wefan fel ffynhonnell wybodaeth/ siop un stop<br>• Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth i bobl, a chyflwyno storïau o 'newyddion da' a chystadleuathau er mwyn codi calonnau'r cyhoedd<br>• Cefnogi, yn ariannol, mentrau cymunedol lleol e.e. banciau bwyd a'r grŵp creu mygydau<br>• Cydweithio mewn partneriaeth â'r Sir, CGGSG a Chynghorau Cymuned eraill<br>• Rhannu gwybodaeth a phrofiad ayyb. |

**9.3 Cysylltiadau Cadarn:** Pobl, lleoedd a mudiadau sydd â chysylltiadau cadarn ac yn gallu addasu i newidiadau.

| | |
|---|---|
| 9.3.1 Prosiect Pontio'r Cenedlaethau | Mae'r prosiect hwn yn anelu at greu cymdeithas mwy cydlynol drwy ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu rhwng y cenedlaethau.<br>Mae pedwar digwyddiad wedi'i gynnal, a'r nifer a fynychodd wedi amrywio. Cynhaliwyd y digwyddiad diwethaf mewn cydweithrediad â Masnach Deg Llanelli.<br>Byddwn yn parhau i gofnodi nifer y mynychwyr. |
| 9.3.2 Fforymau Cymunedol (gweler hefyd 7.5) | Paneli o ddinasyddion yw'r fforymau cymunedol, ac mae'n nhw'n galluogi'r bobl leol i deimlo bod ganddynt lais a rôl yn y broses o ddatblygu llesiant yn eu cymuned.<br>Byddwn yn monitro'r niferoedd sy'n mynychu. |
| 9.3.3 Y Cylch Cyfeillgarwch (gweler hefyd 9.2.2., 9.2.5) | Fel y dangoswyd cyn hyn, mae'r prosiect yn helpu pobl, a fyddai fel arall yn teimlo'n ynysig, i gysylltu ar draws ein pentrefi.<br>Ynghylch monitro, gweler uchod. |
| 9.3.4 Menter Ysgolion Ar y Cyd | Mae'r prosiect hwn yn anelu at gysylltu ieuenctid ar draws ein cymunedau. Mae'r rhan gyntaf yn gysylltiedig â rhannu arfer gorau o ran Cymraeg yn yr iard chwarae a'r Siarter Iaith. Y syniad yw y bydd yr ysgolion yn dysgu oddiwrth ei gilydd.<br>Nid yw hwn wedi datblygu mor gyflym ag y gobeithiwyd. Byddwn yn helpu i gyflwyno, ac yna i werthuso cam cyntaf y prosiect hwn cyn datblygu'r camau pellach. |
| 9.3.5 Eiriolwyr Digidol | Gan gydweithio gyda Chynhwysedd Digidol Cymru, mae'r Cyngor Cymuned wedi hyrwyddo hyfforddiant yr eiriolwyr digidol lleol. Erbyn hyn, 'rydym yn bartneriaid yn y prosiect Didiau a Beitiau sy'n cwmpasu Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd.<br>Byddwn yn monitro'r niferoedd sy'n cymryd rhan ac yn gwerthuso'i lwyddiant. |
| 9.3.6 Treftadaeth | Mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried treftadeth lleol yn ffordd ddefnyddiol o helpu pobl i wneud cysylltiadau. Mae esiamplau o'r hyn sydd wedi'i wneud hyd yn hyn yn cynnwys:<br>• Terfysg Beca – roedd y Cyngor Cymuned wedi ymgysylltu gyda'r gymuned a'r ysgol leol er mwyn datblygu prosiect i ddathlu penblwydd yr ymosodiad ar Dolldy yr Hendy. Roedd yr ysgol wedi cyflwyno gwaith celf a thraethodau (a gafodd eu harddangos yn y café cymunedol) ac mae'r garreg goffa wedi'i hail-osod. Mae'r ysgol wedi dweud bod y plant wedi ymddiddori yn y prosiect, a bydd y penblwydd yma'n cael ei gynnwys, yn flynyddol, ar galendr yr ysgol. 'Rydym hefyd yn bwriadu llunio cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ynghylch Terfysg Beca |

| | |
|---|---|
| | oherwydd bod gan yr Hendy rôl amlwg yn yr hanes. Bydd hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ganolfan gymunedol arfaethedig yn yr Hendy.<br>• Llyfr Hanes Llanedi – roedd y Cyngor Cymuned wedi cefnogi cyhoeddi hanes cynhwysfawr hen blwyf Llanedi (a oedd, ar un adeg, yn gymesur â'r ardal sydd yn ein gofal ni). |
| 9.3.7 Digwyddiadau Cymunedol | Mae'r Cyngor Cymuned yn helpu'r gymuned i ymgysylltu drwy gefnogi digwyddiadau lleol, gan gynnwys:<br>• Ariannu goleuadau'r Nadolig yn yr Hendy, Forest, Llanedi a Thycroes.<br>• Cymorth grant i ddigwyddiadau megis y Parti yn y Parc; Parêd Nadolig yr Hendy a Photarddulais ayyb.<br>'Rydym yn monitro hyn drwy dderbyn adborth anffurfiol. |
| 9.3.8 Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol | Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud y penderfyniad i gefnogi dau gyfleuster cymunedol allweddol sy'n gwasanaethu eu pentrefi penodol, sef Neuadd Eglwys Llanedi a Neuadd Pentref Tycroes. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor Cymuned yn helpu i'w gwneud yn gynaliadwy, ac felly yn darparu lleoliadau i ddinasyddion lleol gyfarfod.<br>Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn cefnogi'r café cymunedol yn hen Ystafell Ddarllen yr Hendy. Mae'r café hefyd yn gweithredu fel pwynt mynediad lle y mae modd defnyddio TG a'r rhyngrwyd yn ddi-dâl.(gweler 9.4.2)<br>Byddwn yn monitro y defnydd cymunedol a wnelir o'r cyfleusterau. |
| 9.3.9 Datblygu Neuadd Gymunedol | Bydd cynllun y Cyngor i ddatblygu neuadd gymunedol yn yr Hendy yn llenwi bwlch o ran darparu lleoliad annibynnol, hygyrch, lle y gall y gymuned ddod at ei gilydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y prosiect hwn, a'r gobaith yw y bydd modd dechrau'r gwaith ar y safle yn y dyfodol agos (yn amodol ar godi'r cyfyngiadau COVID 19 presennol). |
| 9.3.10 Hyrwyddo'r Cynllun Rhannu Ceir Cymunedol | Mae'r Cyngor Cymuned yn helpu, mewn cydweithrediad â phentref cyfagos, i hyrwyddo cynllun rhannu car. Mae hyn yn adnodd defnyddiol i'r bobl hynny a fyddai, fel arall, yn cael eu hynysu. |
| 9.3.11 Llwybr Natur<br>(gweler hefyd 9.1.1.) | Mae gan y llwybr natur rôl i'w chwarae i helpu pobl i ymgysylltu yn y gymuned drwy wirfoddoli, dysgu anffurfiol ac adloniant. Bydd hefyd yn gyfle i ymgysylltu gyda grwpiau ac unigolion sy'n byw y tu fas i'r ardal, yn ogystal â chynnig cyfle i gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill. |
| 9.3.12 Gwefan<br>(gweler hefyd 9.2.1) | Mae gwefan ddwyieithog y Cyngor yn caniatáu cyswllt defnyddiol gyda'n dinasyddion. 'Rydym yn parhau i fonitro'r defnydd ohoni. |

| | |
|---|---|
| 9.3.13 Y Cyfryngau Cymdeithasol | ‘Rydym wedi llunio tudalen ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol a’i defnyddio i gyfathrebu gyda’r dinasyddion. ‘Rydym yn anelu at dyfu’r niferoedd o bobl sy’n ein dilyn ar-lein. ‘Rydym hefyd yn rhannu postiadau/ gwybodaeth i’r llwyfannau cymunedol eraill sydd eisoes yn bodoli (*Llanedi Chat* a *Fforest and Hendy News*). Mae hynny’n cynyddu ein cyrhaeddiad o 1800 aelod o’r gymuned. ‘Rydym yn parhau i fonitro nifer ein dilynwyr a’u hymgysylltiad. |
| 9.3.14 Cylchlythr | Mae’r Cyngor yn darparu cylchlythr dwyieithog ar gyfer y preswylwyr, i’w diweddaru ynghylch newyddion y Cyngor a newyddion cymunedol, ac yn eu hysbysu o’r ffordd y gallant gyfrannu syniadau ayyb. Cynhyrchwyd dau gylchlythr yn ystod 2019.<br>‘Rydym yn monitro’r nifer o gysylltiadau sy’n deillio o’r cylchlythr |
| 9.3.15 Darparu cefnogaeth a phartneriaeth i gyrff eraill: | Mae’r Cyngor yn cefnogi ystod o grwpiau lleol:<br>• Carnifal haf Pontarddulais a’r Cylch.<br>• Mae 4 o gynghorwyr yr Hendy yn aelodau o gorff llywodraethu’r ysgol gynradd<br>• Mae 1 cynghorydd yn aelod o gorff llywodraethu ysgol Llanedi<br>• Mae 3 cynghorydd yn aelodau o gorff llywodraethu ysgol Tycroes<br>• Mae’r Aelodau yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Llywio llwybr natur yr Hendy<br>• Mae’r Aelodau yn cael eu cynrychioli ar y Gymdeithas Chwaraeon leol<br>Mae’r Cyngor hefyd yn aelod o:<br>• Consortiwm Cynghorau yr Aman a’r Cylch<br>• Un Llais Cymru |
| 9.3.16 COVID 19<br>gweler hefyd 9.2.7 | Mae parodrwydd y bobl i wirfoddoli wedi dangos bod ein cymuned y meddu ar gysylltiadau cadarn. Mae’r Cyngor wedi gallu trefnu ac ymgasglu’r gwirfoddolwyr. Mae’r ymateb wedi bod yn anhygoel, gyda mwy o bobl yn gwirfoddoli nag sydd eu hangen ar hyn o bryd. |

**9.4 Pobl a Lleoedd Ffyniannus:** Gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir

| | |
|---|---|
| 9.4.1 Deall anghenion drwy ymgynghori gyda'r gymuned yn reolaidd<br>(gweler hefyd 6.8 a 9.3.2) | Fel y dwedwyd uchod, mae'r Cyngor Cymuned yn ymgynghori yn gyson gyda'r gymuned. 'Rydym yn ymgynghori er mwyn gofyn barn y bobl ynghylch y gwasanaethau y maen nhw am weld yn lleol, ac i ddysgu am anghenion y preswylwyr o ran cefnogeth busnes.<br>Byddwn yn monitro hyn drwy ymgynghori gyda'r gymuned yn y dyfodol. |
| 9.4.2 Mynediad am ddim at gyfrifiaduron a defnydd Wi-Fi<br>(gweler hefyd 9.3.8) | Mae'r Cyngor yn darparu mynediad am ddim i Wi-Fi a gliniaduron rhwydweithiol yn y café cymunedol. Mae hyn yn rhoi mynediad i breswylwyr i wasanaethau ar-lein, cyfle na fyddent fel arall yn cael.<br>'Rydym yn cadw cofnod o'r defnydd a wnelir o'r gliniaduron. |
| 9.4.3 Hyfforddiant<br>(gweler hefyd 9.3.5) | 'Rydym yn cydweithio gyda darparwyr i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant a fydd yn diwallu anghenion ein cymunedau.<br>Bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei werthuso gan ddefnyddio ffurflenni adborth a chofnodion presenoldeb. |
| 9.4.4. Datblygu Cyfeiriaduron Busnes | 'Rydym wedi dechrau datblygu cyfeirlyfr busnesau lleol er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i wasanaethau lleol. 'Rydym wedi dechrau drwy gynnwys siop y groser, y fferyllfa a'r sectorau bwyd a diod. Mae hyn wedi profi i fod yn arbennig o defnyddiol yn ystod yr argyfwng COVID 19.<br>Mae'r cyfeirlyfr yn cynnig cyfle i leihau'r ôl-troed carbon, yn ogystal â chadw arian yn cylchredeg yn ein hardal ni.<br>'Rydym ar hyn o bryd yn llunio cofrestr asedau a fydd yn helpu i wneud y cyfeirlyfr yn fwy cynhwysfawr. |
| 9.4.5 Prynu'n Lleol | Ble bynnag bo hynny'n bosibl, 'rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau yn lleol er mwyn cadw'r budd yn y gymuned. |

## 10. Gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyfle i fyfyrio ar y ffordd y mae pethau'n datblygu.

| | |
|---|---|
| 10.1 Cyfleodd y mae'r Cyngor wedi dod ar eu traws a'r ffordd y mae'r rhain wedi cael eu defnyddio. | Cydweithio gyda Chynghorau Cymuned eraill – mae hyn wedi arwain at esiamplau da o rannu arfer gorau a rhannu ambell gyfle i gynnal hyfforddiant ar y cyd. |
| 10.2 Rhwystrau y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu, a'r camau sydd wedi/ sy'n cael eu cymryd i oresgyn rhain. | Difaterwch rhannau o'r gymdeithas o ran ymateb i'r ymgynghoriadau cymunedol - 'rydym yn parhau i dargedu grwpiau penodol ac yn defnyddio ystod o gyfryngau gan gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.<br>Diffyg gwybodaeth gyhoeddus am y Ddeddf Llesiant – byddwn yn sôn mwy am hyn e.e. ar ein gwefan ac yn adroddiadau ein swyddogion ayyb.<br>Bydden ni'n croesawu gwybodaeth ac hyfforddiant pellach |
| 10.3 Heriau y mae'r Cyngor wedi eu hwynebu, a'r mesurau a ddodwyd yn eu lle i oresgyn rhain. | Heriau:<br>• Amser/ adnoddau<br>• Diffyg arbenigedd mewn rhai meysydd arbenigol<br>• Maint y dasg<br>Mesurau:<br>• Wedi penodi Swyddog Datblygu Cymunedol<br>• Gofyn am gyngor/ cefnogaeth gan arbenigwyr<br>Llwyddiannau Penodol<br>• Prosiect y llwybr natur a'r ymgysylltu y mae hwn wedi'i greu (9.1.1; 9.3.11)<br>• Adnabod cyfleoedd am ragor o grwpiau a arweinir yn gymunedol<br>• Chwaraeon/ clybiau i blant yn ystod gwyliau ysgol (gweler 9.1.4/9.2.4)<br>Yr hyn nad oedd yn gweithio yn ôl y disgwyl<br>• Cynnydd araf/ diffyg blaenoriaethau allanol o ran rhai prosiectau ar y cyd, e.e. y fenter iechyd meddwl gyda chlybiau rygbi; oedi yn achos y Siarter Iaith<br>Beth y mae angen inni wneud yn well:<br>• Gwella'n cynllunio a'n strategaeth yn gyffredinol – mae rhaglen ddatblygu gymunedol yn cael ei |

| | |
|---|---|
| | llunio<br>• Gwella'n dull o weithredu, a'n hymgysylltu diwylliannol - 'rydym yn cynllunio rhagor o ddigwydiadau a chyfleoedd cymunedol<br>• Ymgysylltu yn fwy gyda phobl ifanc a'u cynnwys nhw yn y broses ddemocratig, ac wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol<br>• Meddu ar well prosesau a ffyrdd cliriach o weithredu<br>• Arfarnu'n staff a'n perfformiad yn effeithiol |
| 10.4 Materion y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi. | Fel y llynedd…<br>• Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol.<br>• Canllawiau mwy clir/ hyfforddiant cyson i gynghorwyr a swyddogion i'w ail-wreiddio yn eu cynlluniau.<br>• Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)<br>    o Mae angen i'r BGC, yn ei gyfanrwydd, gyfathrebu yn gliriach gyda'i bartneriaid, gan fod y broses yn teimlo fel proses un-ffordd:<br>        ▪ Dylai'r BGC ddarparu esiamplau o arfer gorau wrth gwblhau cynlluniau blynyddol/ y ffordd yr hoffai weld yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno, gan ei bod yn ymddangos bod pob Cyngor Cymuned yn taclo'r dasg mewn ffordd wahanol.<br>        ▪ Dylai'r BGC adnabod meysydd o arfer gorau a rhannu'r rhain ymysg y cynghorau eraill/ annog rhannu syniadau a phrosiectau llwyddiannus.<br>        ▪ Mae'r Ddeddf Llesiant yn pwysleisio'r dull o'r gwaelod i fyny'. Wrth ofyn am yr adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod y BGC yn mabwysiadu dull 'o'r top i lawr', h.y. sut 'rydym yn cwrdd ag amcanion y BGC, pan ddylai'r BGC fod yn gofyn ym mha ffordd y mae'n ein helpu ni i wireddu'n hamcanion 'ar lawr gwlad', ac yn bwydo hynny yn ôl i ni.<br>        ▪ Mae'r BGC yn mesur anghenion ar lefel sirol, ond efallai bod pocedi o angen penodol ar y lefel leol nad ydynt yn cael eu huwcholeuo, neu sy'n mynd ar goll o ganlyniad i'r dull cyffredinol hwn o weithio. Mae angen i ni gael y cyfle i fwydo mewn anghenion cymunedau unigol, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae'r BGC yn ymaeb, ac yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu. |

| | |
|---|---|
| | ▪ 'Rydym yn cydnabod bod peth ymdrech wedi'i wneud h.y. grŵp ymgysylltu y Swyddog Cynghorau Tref a Chymuned, a'r cyfle cymharol ddiweddar a roddwyd i Gynghorau Cymuned anfon cynrychiolydd unigol 'cylchredol' i fynychu cyfarfodydd y BGC. |
| | |